

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ynghylch ein hagwedd arfaethedig at orfodi ac erlyn.

1. Cyflwyniad

Mae'r un corff amgylcheddol newydd o'r enw Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheolydd amgylcheddol sydd â grymoedd ymateb i ddrwgweithredu amgylcheddol (troseddau).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgynghori ynghylch yr agwedd arfaethedig at orfodi ac erlyn, yn dilyn y penderfyniad i drosglwyddo grymoedd sancsiynnu sifil i Gyfoeth Naturiol Cymru, ac a yw'r wybodaeth yn y dogfennau'n esbonio'n eglur yr hyn a ystyrir pan benderfynir ynghylch ymateb gorfodaethol.

Ceir manylion yr agwedd yn y Polisi Gorfodi ac Erlyn, a'r Arweiniad cysylltiedig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o'r 17^{eg} o Ionawr 2013 hyd yr 28^{ain} o Chwefror 2013, sef chwe wythnos. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r Polisi Gorfodi ac erlyn yn cynnwys yr holl droseddau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdod gorfodi cyfrifol amdanynt o'r 1^{af} o Ebrill 2013. Cynhwysant y troseddau hynny y bu awdurdodau gorfodi blaenorol yn gyfrifol amdanynt:

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru; ac
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Ni fydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru unrhyw rymoedd gorfodi newydd: bydd yr holl rymoedd sydd ganddo wedi'u trosglwyddo o'r awdurdodau blaenorol hyn.

Esbonia'r Arweiniad ynghylch Gorfodi a Sancsiynau sut y gweithreda Cyfoeth Naturiol Cymru'r polisi hwn, ac y penderfyna ynghylch ymatebion gorfodaethol i droseddau. Ategir hyn gan Atodiad 4, a rydd enghreifftiau a dewisiadau ar gyfer ein hymateb gorfodaethol.

2. Trosolwg a dadansoddiad ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 21 ymateb i'r ymgynghoriad. Yr oedd rhagor na thraean ohonynt o ddiwydiant neu fusnesau a reoleiddir, ac a effeithir yn

uniongyrchol gan y polisi hwn. Ceir canllawiau'r ACLI yn Adran 7 ac Atodiad 1 NCT15. Dylai rhywun sydd â chymwysterau ac indemniad proffesiynol addas gynnal yr ACLI. Cyn cynnal ACLI, cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â Sue Williams, Swyddog Datblygu a Pherygl Llifogydd, ar 01248 484148 crynodeb o bob un ymateb yn Atodiad 1.

Trafodir themâu cyffredinol, a darperir atebion i bwyntiau unigol, penodol, neilltuol yn Atodiad 1, hefyd.

Themâu Cyffredinol:

Eglurdeb ynghylch gweithio â chyrrff gorfodaethol eraill ac awdurdodau Lleol.

Er i'r Polisi fynnu bod gweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru'n trafod ac yn gweithio ynghyd â chyrrff gorfodaethol eraill, ac er mwyn sicrhau bod unrhyw weithredu'n gyson ac yn addas, ni chynhwysu fanylion sut y dylai hyn ddigwydd. Mae'r ymatebion wedi amlygu rhan bwysig trafod, cefnogaeth a chydweithio da ag eraill yng ngorfodi ac erlyn. Ymrown at hyn trwy'r modd y lluniwn ac y gweithredwn drefnau a phrosesau gorfodi ac erlyn o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Defnydd cyson ac addas ar rymoedd.

Amlygodd yr ymatebion y dylid defnyddio grymoedd, ac mewn modd cyson. Mae'r polisi a'r arweiniad yn darparu'r arddull cyffredinol a ddefnyddir, ac arolygwn weithredu hyn trwy, er enghraifft, ddefnyddio Panel Adolygu Gorfodaeth er mwyn asesu'n gyson addasrwydd pob penderfyniad gorfodaethol.

Yn amodol ar y datganiadau ynghylch gweithredu yn erbyn y Goron, penderfynir ein hymateb i droseddau cyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ôl y ffactorau budd cyhoeddus perthnasol, ac fe'u trinir yn yr un modd â chyrrff corfforaethol eraill.

Defnyddio addysg a chyngor er mwyn osgoi gorfod erlyn.

Tanlinellodd sawl ymateb yr angen i helpu osgoi gorfod erlyn trwy ddarparu cyngor ac addysg dda. Cydnabyddwn mai gwell rhwystro na gwella, a pharhawn i ddarparu arweiniad. Ymhen ychydig, byddwn yn gosod y cyfeiriad tymor hir, hefyd. Un o'r blaenoriaethau eginol yr ymgynghorwn yn eu cylch â buddiolwyr, wrth inni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol cyntaf, yw sut orau y cefnogwn ddiwydiant a busnesau â chyngor, arweiniad a rhwyddhad eglur, cryno ac amserol.

3. Crynodeb gweithredol

O'r ymatebion, mae rhagor na'u tri chwarter yn gefnogol, gan fwyaf, i'r agwedd gyffredinol, ac nid yw'r gweddill yn mynegi unrhyw farn bendant. Mae tua hanner yr ymatebion yn mynegi pryderon y bu'r awdurdodau gorfodi blaenorol yn wantan wrth orfodi, ac weithiau'n anghyson wrth weithredu'r polisi. Mae sylwadau'r rhai a reoleiddir yn annog parhau i ddefnyddio cynghori ac arwain megis er mwyn gorfodi.

Canfuwyd dau gamgymeriad technegol yn yr ymgynghoriad cysylltiedig. Dylai fod hwnnw wedi datgan nad yw Sanctsiynau Sifil ar gael ar gyfer cynllun effeithlonrwydd ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, ac nad yw rheoliadau Cludo Trawsffiniol yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd. Gan na fu'r cyfryw'n rhan o'r dogfennau polisi eu hunain, nid oes angen diwygiadau.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn neilltuol ddefnyddiol wrth lunio a gwella'r trefnau a'r prosesau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni newidir y Polisi, a bach o newid sydd i'r Arweiniad.

Rhoddir y Polisi hwn, a'r dogfennau Arweiniad newidiedig cysylltiedig, ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn awr.

Atodiad 1

Crynodeb o'r ymateb	Atebion penodol
<p>1. Monmouth Tree Services <i>Cefnogol</i> Gorfodaeth dila yn y gorffennol yn wyneb troseddau bywyd gwyllt a chynefin. Angen i CNC sicrhau defnyddio grymoedd, a lle bo modd, defnyddio'r sancsiynau sifil sydd ar gael i drwsio'r difrod a achoswyd.</p>	
<p>2 Parc Cenedlaethol Eryri Amheuoedd a ellid cyhoeddi Hysbysion ail-stocio cyn euogfarn am gwmpo coed heb drwydded, fel y dywedir yn Atodiad 4 yr ymgynghoriad.</p>	<p>Diwygiwyd y Ddeddf Goedwigaeth trwy Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Coedwigaeth) 2006, Cymal 4, a roddodd i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ddewis cyflwyno Gorchymyn Ail-stocio i berchennog hen sicrhau erlyniad yn gyntaf.</p>
<p>3. Grŵp Ystlumod Sir Fynwy <i>Cefnogaeth Rannol</i> Angen i'r arweiniad ynghylch tramgwyddiadau datblygwyr fod yn eglurach. Pryderon ynghylch ymgysylltu â chynllunwyr, ecolegwyr a gweithwyr bioamrywiaeth Awdurdodau Lleol; ynghylch y modd y trafodir adroddiadau ynghylch troseddau bywyd gwyllt ar hyn o bryd, ac nad yw cosbau ariannol bychain yn atal datblygwyr.</p>	
<p>4. Sefydliad Gwy ac Wysg <i>Cefnogol</i> Yn y gorffennol, gwelwyd amharodrwydd i ddefnyddio grymoedd gorfodi.</p>	
<p>5. Tim Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Castell Nedd Port Talbot Dim materion neilltuol. Yn croesawu'r cyfle i weithio ag Awdurdodau Lleol.</p>	
<p>6. Yr ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Cymru). <i>Cefnogol, gan fwyaf.</i> Croesawai:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gyfeirio penodol at rywogaethau amddiffynedig; ○ crybwyll penodol gweithio â'r Heddlu; ○ ymestyn grymoedd sancsiynau sifil y tu hwnt i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd ○ adennill costau i gynnwys eraill sydd â rhan yn nygiad achosion. 	<p>Y Polisi'n gyffredinol ar gyfer yr holl oruchwyliaethau amgylcheddol. Cyfeirir at rywogaethau penodol yn y gwahanol ddeddfwriaeth. Rydym yn darparu rhestr Dewisiadau Ymateb i Droseddau, sy'n manylu'r ddeddfwriaeth a'r ymatebion sydd ar gael inni yn ôl y gyfraith. Ni chynhwyswyd hon yn yr ymgynghoriad hwn, ond fe'i cyhoeddir ar ein gwefan.</p> <p>Gallwn adennill costau lle caniatáu'r gyfraith, gan gynnwys pan orfodir ar y cyd ag eraill, megis yr Heddlu neu Awdurdodau Lleol. Yn</p>

	anffodus, ni allwn adennill costau ar ran eraill sydd wedi rhoi cefnogaeth.
7. Elaine Jones <i>Cefnogol</i>	
8. Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru Yn ceisio parhad trefniadau lleol presennol â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru er gyfer gorfodi yng Nghraig y Dinas ym Mannau Brycheiniog.	Croesawn weithio partneriaethol a threfniadau lleol, a bydd angen i'r cyfryw fod yn unol â'r polisi a'r arweiniad hwn, bellach.
9. BSW Timber Association <i>Cefnogol, gan fwyaf</i> Yn croesawu'r ymateb cymesur, a'r angen am gynnal teimlad o'i amcanion datblygu cynaliadwy wrth ystyried gweithrediadau gorfodi.	
10. UCA Cymru <i>Cefnogol, gan fwyaf</i> Pryder ynghylch ein bwriad i lwyr adennill costau ymchwilio a gorfodi.	Nid yw'r polisi a'r arweiniad yn cyflwyno unrhyw adennill costau ychwanegol i'r hyn sy'n bod eisoes.
11. John Bowers <i>Cefnogol, gan fwyaf</i> Pryderon ynghylch gweithio â chyrrff cyhoeddus eraill, a Chynllunwyr yn benodol. Yn argymhell cyhoeddi rhestr gyflawn o rymoedd deddfwriaethol CNC. Sylwadau penodol eraill ynghylch y testun.	Rydym yn darparu rhestr Dewisiadau Ymateb i Droseddau, sy'n manylu ynghylch y ddeddfwriaeth a'r ymatebion sydd ar gael inni yn ôl y gyfraith. Nis cynhwyswyd yn yr ymgynghoriad hwn, ond fe'i cyhoeddir ar ein gwefan.
12. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Sylw penodol y dylai rheolyddion gydnabod mai elfen allweddol o'u gweithgaredd fydd caniatáu, neu hyd yn oed annog, cynnydd economaidd, a pheidio ag ymyrryd onid oes achos eglur dros ddiogelu.	
13. Y Gymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTBG) <i>Cefnogol</i> Angen rhagor o eglurdeb ynghylch y gynulleidfa fwriedig, cynllun a therminoleg.	Y gynulleidfa fwriedig yw gweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.
14. CFGA Cymru <i>Cefnogol</i> Croesewid ehangu grymoedd sancsiynau sifil. Pryderon ynghylch cynnwys "ein hamcan", a bod angen rhagor o eglurdeb ynghylch gweithio â chyrrff gorfodaethol eraill.	
15. Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (SSRhG)	Diwygiwyd Atodiad 1.

<p><i>Cefnogol.</i> Tynnwyd sylw at gamgymeriad yn Atodiad 1, lle dywedir bod y Gosb Ariannol Amrywiol wedi'i gyfyngu i £250. Mewn gwirionedd, nid oes cyfyngiad yng Nghymru.</p>	
<p>16. Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwnol <i>Cefnogol.</i> Pryderon ynghylch gallu'r corff cyfan i brofi cydymffurfiaeth Hampton, materion trawsffiniol a chysondeb.</p>	<p>Cysylltiadau i'w sefydlu er mwyn sicrhau gweithio effeithiol â chyrrff trawsffiniol eraill.</p>
<p>17. Cyfundeb y Busnesau Bychain (CBB Cymru) <i>Cefnogol</i> Yn argymhell defnyddio addysg a chynghori megis yr ymateb cyntaf i anghydymffurfiaeth.</p>	
<p>18. Undeb Amaethwyr Cymru <i>Cefnogol</i> Yn argymhell agwedd gyson at weithredu'r polisi, ac na ddylid defnyddio cosb ariannol ar gyfer troseddau heblaw pan fetho pob dull arall.</p>	
<p>19. Dŵr Cymru <i>Cefnogaeth gyffredinol</i> Pryderon ynghylch amseroldeb achosion o orfodaeth, a didueddrwydd, cysondeb gweithredu'r polisi, ehangiad sancsiynau sifil, a rheoleiddio mewnol.</p>	<p>Mae rhwymedigaethau cyfreithiol ac arfer gorau yn ein gorfodi i rannu prosesau a swyddogaethau mewnol rhwng Cyfarwyddiaethau. Mae'r Cynllun Dirprwyo Anariannol a'r Cynllun Cyhoeddi'n datgan sut y perir bod penderfyniadau rheoleiddiol mewnol yn eglur ac yn dryloyw.</p>
<p>20. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth <i>Cefnogaeth gyffredinol</i></p>	
<p>21. Bwrdd Iechyd Hywel Dda <i>Dim Sylwadau</i></p>	